Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

15 Gorffennaf 2019

Annwyl Gadeiryddion

Yfory yn y siambr, byddaf yn gwneud Datganiad Llafar ar 'Ragolygon y Dyfodol ar gyfer Gwariant Cyhoeddus yng Nghymru' a fydd yn tynnu sylw at yr heriau yr ydym yn eu hwynebu oherwydd y diffyg eglurder o ran cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant eleni a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar ein paratoadau ar gyfer y gyllideb, gan gynnwys yr amserlen.

Oherwydd y sefyllfa hon, ac yn unol â Rheol Sefydlog 20, ysgrifennais yn ddiweddar at gadeiryddion y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Cyllid ynglŷn â'r dyddiadau ar gyfer gosod y gyllideb ddrafft a chyflwyno cynnig blynyddol y gyllideb.

Nid ydym yn gwybod eto pryd y bydd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn cael ei gynnal, pa gyfnod y bydd yn ymdrin ag ef, na phryd y bydd yn dod i ben. Mae'r rhai sy'n ymgeisio am arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol ac, yn y pen-draw, swydd y Prif Weinidog, wedi gwneud sylwadau sy'n awgrymu y gallai Llywodraeth newydd y DU gyhoeddi ei Chyllideb ym mis Medi. O'r herwydd, mae'n anodd rhoi sicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn â'r dyddiadau ar gyfer cyhoeddi ein Cyllideb ddrafft a'n Cyllideb derfynol ar gyfer 2020-21.

Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 20.6 yn gwneud darpariaeth i'r Pwyllgor Busnes allu gwneud newidiadau i'r amserlen ar gais y Llywodraeth. Yn unol â hynny, ac ar y ddealltwriaeth y byddaf yn darparu amserlen bendant cyn gynted â phosibl ar ôl i Lywodraeth y DU wneud cyhoeddiad ynglŷn â'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'i Chyllideb, rwyf wedi dweud wrth y Pwyllgor Busnes ein bod yn cynllunio i gyhoeddi'r Cyllidebau drafft amlinellol a manwl gyda'i gilydd ar 10 Rhagfyr, a'r Gyllideb derfynol ar 3 Mawrth 2020.

Wrth gynnig y dyddiadau hynny, rwy'n ymwybodol o Reol Sefydlog 20.5 a'r trefniadau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â'r cyfnod a ddarperir ar gyfer craffu. Mae Rheol Sefydlog 20.5 yn darparu, 'fel arfer', y bydd y Pwyllgor Cyllid yn cael wyth wythnos i gyflwyno adroddiad ar gynigion amlinellol y gyllideb ac y bydd y pwyllgorau'n cael pum wythnos i ystyried cynigion manwl y gyllideb. Er na ellir galw hon yn flwyddyn arferol, rwy'n dal yn ymrwymedig i sicrhau bod ein cynigion gwario yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

destun proses graffu mor lawn ag sy'n bosibl. O ganlyniad, byddai'r amserlen rwyf wedi'i nodi yn caniatáu wyth wythnos ar gyfer craffu ar y Gyllideb ddrafft, sef pum wythnos pan fyddai'r Cynulliad yn eistedd a thair wythnos pan na fyddai'n eistedd.

Pan drafodwyd y trefniadau hyn gennym yn y Pwyllgor Busnes yr wythnos ddiwethaf, roedd yr holl bartïon yn cydnabod yr effaith a'r anawsterau o ran yr amserlen graffu a'ch blaenraglenni gwaith pe baem yn newid y dyddiadau i rai cynharach os bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei chyllideb yn gynt na'r disgwyl. Dan yr amgylchiadau hynny, fe fyddwn i'n ddiolchgar am ddealltwriaeth a hyblygrwydd gennych o ran rhoi lle i broses graffu'r gyllideb yn eich rhaglen waith. Byddaf yn gofyn hefyd i'm cyd-Weinidogion fod yn hyblyg o ran bod ar gael i fynychu sesiynau craffu'r pwyllgorau.

Gobeithio bod y trefniadau hyn yn dderbyniol ichi o ystyried yr amgylchiadau, sy'n cael eu llywio gan ffactorau allanol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol. Rwy'n ddiolchgar am eich dealltwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd